



GWOBRAU JERWOOD/PHOTOWORKS: CANLLAWIAU AR GYFER GWNEUD CAIS

Beth yw Gwobrau Jerwood/Photoworks?

Mae Gwobrau Jerwood/Photoworks yn gyfle comisiwn o bwys sy'n cefnogi artistiaid ar ddechrau'u gyrfaoedd ym maes ffotograffiaeth i greu gwaith newydd a datblygu eu hymarfer yn sylweddol. Maen nhw'n benodol yn ceisio annog artistiaid sy'n defnyddio dulliau newydd o greu ffotograffiaeth.

Bellach yn cael eu cyflwyno am y pedwerydd tro, mae'r Gwobrau'n cael eu rhoi i artistiaid sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, a dylai fod rhwng blwyddyn a deng mlynedd ers iddyn nhw ddechrau ar eu hymarfer. Bydd y Gwobrau'n rhoi cyfle i'r artistiaid greu gweithiau newydd uchelgeisiol ar gyfer arddangosfa deithiol genedlaethol.

Bydd dau artist yn cael gwobr o £15,000 yr un (sy'n cynnwys ffi artist gwerth £10,000 a chyllideb gynhyrchu gwerth £5,000) gyda phe cyn llawn o gefnogaeth gan Photoworks a Jerwood Arts i greu gwaith newydd dros gyfnod o 12 mis. Mae hyn yn cynnwys:

- ffi artist o £10,000
- cyllideb gynhyrchu o £5,000
- Y gallu i ddefnyddio cyllideb argraffu gwerth £5,000 gan y partner argraffu, Spectrum Photographic
- Cefnogaeth ar ffurf mentora gan garfan amlwg o arbenigwyr rhyngwladol am 12 mis, o leiaf
- Cefnogaeth guradurol gan Photoworks a Jerwood Arts
- Arddangosfa i ddau artist yn Llundain fel rhan o raglen Jerwood Arts yn Jerwood Space (o fis Hydref 2022)
- Arddangosfa deithiol yn y Deyrnas Unedig

Mae pob gwobr yn werth £32,000 i gyd.

Y panel dethol ar gyfer y rownd hon o Wobrau Jerwood/Photoworks yw Christine Eyene (Hanesydd, beirniad a churadur celf), Joy Gregory (arlunydd), Sunil Gupta (Ffotograffydd), Julia Bunnemann (Curadur, Photoworks) a Harriet Cooper (Pennaeth Celfyddydau Gweledol, Jerwood Arts).

Mae'r Gwobrau yn ffrwyth cydweithio rhwng [Jerwood Arts](#) a Photoworks, gyda chefnogaeth [Spectrum Photographic](#). Ymhlith y bobl sydd wedi derbyn y gwobrau yn y gorffennol mae Silvia Rosi, Theo Simpson, Alejandra Carles-Tolra, Sam Laughlin, Lua Ribeira, Matthew Finn, Joanna Piotrowska a Tereza Zelenkova.

Mae rhagor o wybodaeth am rowndiau blaenorol y gwobrau [fan hyn](#).

Nid oes yn rhaid talu dim i wneud cais.

Mae'r porth ymgeisio ar agor tan 10am ddydd Mercher 12 Mai.

I bwy mae Gwobrau Jerwood/Photoworks?

Nid oes gofyniad addysgol na chyfyngiad oedran er mwyn gwneud cais.

Byddwn yn croesawu ceisiadau gan artistiaid unigol a'r rheini sy'n ymarfer ar y cyd. Bydd angen i'r canlynol fod yn berthnasol:

- Dylai'r artist fod yn gweithio ym maes ffotograffiaeth, ac yn ystyried ffotograffiaeth yn ganolog i'w ymarfer nawr ac yn y dyfodol.
- Ar yr adeg pan wneir y cais, dylai fod rhwng blwyddyn a deng mlynedd ers i'r artist ddechrau ar ei ymarfer artistig proffesiynol ym maes ffotograffiaeth. Mae hyn yn golygu ei fod yn ystyried bod ei ymarfer artistig proffesiynol wedi dechrau ar ôl mis Mawrth 2011 a ddim hwyrach na mis Mawrth 2020, oni bai eich bod wedi cael egwyl gyrfa neu bod rhesymau iechyd neu ofal wedi effeithio ar lwybr eich gyrfa yn sylweddol.
- Gall pobl sydd wedi gwneud cais mewn rowndiau blaenorol wneud cais, yn ogystal â'r rheini sydd heb wneud cais o'r blaen.
- Rhaid bod gennych chi hawl gyfreithiol i weithio yn y Deyrnas Unedig, rhaid ichi fod yn byw yn y Deyrnas Unedig, a rhaid ichi fwriadu byw yn y Deyrnas Unedig tan fis Mehefin 2023 (nid oes yn rhaid ichi fod yn un o Wladolion Prydain).

Mae'n ddrwg gennyn ni gadarnhau nad yw'r canlynol yn gymwys i Wobrau Jerwood/Photoworks:

- Unrhyw un fydd yn cael addysg ran amser neu amser llawn ar unrhyw adeg rhwng mis Medi 2021 a mis Hydref 2022 (gan gynnwys rhai sy'n ysgrifennu traethawd).*
- Artistiaid nad ydyn nhw'n byw yn y Deyrnas Unedig.
- Artistiaid sy'n defnyddio ffurf gelfyddydol arall wrth ymarfer yn bennaf, gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud â delweddau symudol, nad yw'n gymwys i Wobrau Jerwood/Photoworks.
- Cynigion am waith neu weithiau newydd a fydd yn gofyn am gyllid ychwanegol at yr uchod i'w gyflawni.

* Mae hyn yn berthnasol i holl aelodau'r grŵp os byddwch chi'n gwneud cais fel artistiaid sy'n ymarfer ar y cyd.

Sylwch mai dim ond un cais y gallwch ei gyflwyno i Wobrau Jerwood/Photoworks fel artist unigol. Gallwch gyflwyno cais ychwanegol ar gyfer gwaith sy'n rhan o ymarfer ar y cyd cyn belled â'i fod yn gwbl wahanol i'ch ymarfer fel unigolyn.

Gwnewch y cwis

Rydym wedi creu cwis, '[A yw Gwobrau Jerwood/Photoworks yn addas i mi?](#)' i'ch helpu i benderfynu a yw'r gwobrau'n addas i chi ar y pwynt hwn yn eich ymarfer. Dylech allu ateb pob cwestiwn yn y cwis yn gadarnhaol, a hynny'n hyderus, i wybod bod y wobr yn addas i chi.

Mae rhagor o fanylion yn y Cwestiynau Cyffredin sy'n esbonio i bwy mae'r gwobrau hyn i fod. Os bydd gennych chi ragor o gwestiynau am ba mor addas yw'r gwobrau i chi, neu am eich cymhwysedd, croeso ichi anfon e-bost at Julia Bunnemann, y Curadur, drwy julia@photoworks.org.uk a byddwn yn eich ateb o fewn tri diwrnod gwaith. Gweler isod am ragor o fanylion am sut y gallwn eich helpu i wneud cais.

Beth mae Gwobrau Jerwood/Photoworks yn ceisio'i gefnogi?

Rydym yn chwilio am gynigion beiddgar a gwreiddiol ar gyfer creu gwaith neu weithiau newydd mewn ffotograffiaeth, a hynny'n cynrychioli newid amlwg yn eich ymarfer. Rydym am gefnogi syniadau uchelgeisiol a fydd yn elwa'n sylweddol o'r cyfnod ymchwil a datblygu sydd ar gael drwy'r gwobrau, er enghraifft drwy eich galluogi i arbrofi â ffyrdd newydd ac uchelgeisiol o weithio â ffotograffiaeth.

Mae'r gwobrau'n ceisio cefnogi potensial dulliau newydd o ddefnyddio ffotograffiaeth. Bydd timau Photoworks a Jerwood Arts yn rhoi arweiniad 1:1 a chefnogaeth ddatblygu i ddau artist a fydd yn derbyn y gwobrau, gan gydweithio â nhw yn y broses o ddatblygu eu cynnig o safbwynt curadurologisteg. At hynny, mae carfan amlwg o artistiaid a churaduron ar gael i fentora'r artistiaid a gaiff y gwobrau, ac i fod yn ffrindiau beirniadol iddyn nhw, gan eu helpu i gyflawni eu cynnig a datblygu'u hymarfer drwy gydol y 12 mis o'r cyfnod dewis i'r cyfnod arddangos a'r tu hwnt.

Rhaid bod modd cyflawni'r cynigion gyda'r £15,000 o wobr, a hynny o fewn y cyfnod datblygu o 12 mis. Dylai'r cynigion hefyd roi eglurder ynghylch sut y gallai fod angen addasu'r prosiect oherwydd yr amgylchiadau a chyfyngiadau ar weithgareddau yn gysylltiedig â COVID-19.

Beth yw'r dyddiadau pwysig?

18 Mawrth 2021, 2pm GMT	Y porth ymgeisio yn agor
12 Mai 2021, 10am GMT	Y porth ymgeisio yn cau
18 Mehefin 2021	Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr ar y rhestr hir
15 Gorffennaf 2021	Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer
21 Gorffennaf 2021	Cynnal cyfweiliadau naill yn Jerwood Space, Llundain neu ar-lein
Medi 2021	Rhoi gwybod i'r sawl sydd i dderbyn y gwobrau
Medi 2021 – Medi 2022	Datblygu'r gwaith
Hydref 2022	Arddangosfa yn Jerwood Space, Llundain ac arddangosfa deithiol genedlaethol i ddilyn yn 2023

Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant

Mae Jerwood Arts a Photoworks wedi ymrwmo i roi sylw i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl waith, ac mae manylion am ein camau gweithredu diweddaraf yn hyn o beth ar gael [fan hyn](#) a [fan hyn](#).

Mae'r sector hefyd yn wynebu colli llawer iawn o swyddi oherwydd COVID-19, mwy nag mewn sawl sector arall. Mae effaith bersonol hyn yn aml yn drychinebus; ac mae colli pobl fedrus a thalentog am byth yn achos pryder mawr at y dyfodol. Mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar ieuchyd a bywoliaeth pobl o gefndir Affricanaidd, Caribiaidd, LladinX, neu Dde a Dwyrain Asia, pobl sydd ag

anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor, pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, a phobl sy'n wynebu rhwystrau rhyngblethol. Roedd y grwpiau hyn eisoes yn cael eu tangynrychioli yn y sector celfyddydau gweledol a ffotograffiaeth, ac yn fwy tebygol o wynebu hiliaeth ac o gael eu gwthio i'r cyrion.

Ar gyfer Gwobrau Jerwood/Photoworks, gan hynny, byddwn yn croesawu'n arbennig geisiadau gan unrhyw un yn y grwpiau uchod. Bydd ein gwaith marchnata yn canolbwyntio ar ymwneud â rhwydweithiau a sefydliadau sy'n cynrychioli'r cymunedau hyn, a byddwn yn annog ceisiadau o Ogledd Iwerddon, Cymru, yr Alban, Gogledd-Ddwyrain Lloegr, a Gogledd-Orllewin Lloegr, sydd wedi'u tangynrychioli hefyd yn hanes Gwobrau Jerwood/Photoworks.

I gefnogi ymgeiswyr mewn ffordd fwy cynhwysol a hygyrch, rydyn ni wedi cymryd camau fel rhoi canllawiau manwl iawn ar gyfer gwneud cais, a rhoi atebion i gwestiynau cyffredin, ac mae'r rhain i gyd ar gael mewn fformat Hawdd ei Ddeall, mewn Print Bras, yn y Gymraeg ac fel recordiad sain. Rydyn ni wedi creu ffurflen gais decach, heb ofyn am CV, a gellir dewis cyflwyno ceisiadau fideo/sain. Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor 1:1 ac yn rhoi cymorth hygyrchedd unigol.

Cynghorwyr artistiaid cyflogedig, panel dethol cyflogedig, ac aelodau o staff Photoworks a Jerwood Arts fydd yn gyfrifol am y broses asesu a dethol, ac maen nhw wedi cael canllawiau am ymwybyddiaeth o ragfarn. Byddan nhw'n ceisio sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg. Panel dethol o bump fydd yn gwneud y dewis terfynol: tri churadur neu artist allanol wedi'u dewis oherwydd eu profiad, eu cefndir a'u harbenigedd, un cynrychiolydd o Photoworks ac un cynrychiolydd o Jerwood Arts.

Sut i wneud cais

Gallwch wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein [yma](#).

Mae recordiad sain o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).
Mae fersiwn hawdd ei ddeall o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).
Mae fersiwn print bras o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).
Mae fersiwn Saesneg o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).

Nid oes modd cadw a pharhau ar y ffurflen gais. Rydyn ni'n argymhell yn gryf eich bod yn drafftio eich ymatebion ar wahân, cyn eu gludo i'r ffurflen [ar-lein](#) pan fyddwch yn barod. Nid yw'n bosibl newid eich cais ar ôl ei gyflwyno.

Cadwch gopi o'ch ymatebion er mwyn cyfeirio atyn nhw yn y dyfodol, gan na fydd hi'n bosib inni roi copi ichi ar ôl ichi gyflwyno'ch cais.

Cyngor a chymorth i wneud cais

Rydyn ni wedi ymrwmo i sicrhau bod ein cyfleoedd yn hygyrch a bod y broses ymgeisio mor hwylus â phosibl. Mae hyn yn rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i groesawu ac annog ymgeiswyr sy'n wynebu rhwystrau i wneud cais. Rydyn ni hefyd yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sy'n ymgeisio am y tro cyntaf i Wobrau Jerwood/Photoworks.

- **E-byst:** Rydyn ni'n barod i ateb e-byst. Dylid anfon cwestiynau at Julia Bunnemann, y Curadur, drwy julia@photoworks.org.uk. Byddwn yn ceisio ymateb i'ch e-bost o fewn tri diwrnod gwaith.

- **Sesiynau Cynghori:** Rydyn ni hefyd yn rhoi cyfle i bobl siarad ag aelod o dîm Jerwood Arts neu Photoworks mewn sesiwn gynghori ddeg munud cyn gwneud cais. Yn y sesiynau hyn, does dim modd inni ddarllen ceisiadau neu destun drafft, ond gallwn drafod eich syniadau penodol ar gyfer ceisiadau a rhoi arweiniad ichi ar gyfer cryfhau'r rhain yn y cais. Anfonwch e-bost at Julia Bunnemann, y Curadur, julia@photoworks.org.uk gyda'r cwestiynau y byddech chi'n hoffi'u trafod a'ch rhif ffôn, er mwyn trefnu sesiwn gynghori.
- **Digwyddiad:** Yn ystod y cyfnod lle byddwn yn galw am gynigion, byddwn yn cynnal digwyddiad ar-lein gyda phanelwyr a phobl sydd wedi cael Gwobrau Jerwood/Photoworks yn y gorffennol, er mwyn iddyn nhw allu rhannu eu profiad o'r gwobrau a thrafod cwestiynau cyffredin. Dilynwch [@jerwoodarts](https://www.instagram.com/jerwoodarts) a [@photoworks_uk](https://www.instagram.com/photoworks_uk) ar y cyfryngau cymdeithasol am fanylion ynghylch sut i fod yn bresennol.
- **Y Cyfryngau Cymdeithasol:** I gael cyfle mwy anffurfiol i ofyn cwestiynau, byddwn yn cynnal sawl sesiwn 'Gofynnwch Unrhyw Beth' ar straeon Instagram [@photoworks_uk](https://www.instagram.com/photoworks_uk) drwy gydol y cyfnod pan fydd yr alwad ar agor. Dilynwch [@photoworks_uk](https://www.instagram.com/photoworks_uk) i ofyn cwestiynau inni drwy'r dull hwn.

Sylwch mai cyngor am ba mor gymwys ac addas yw eich cais fydd y cyngor y byddwn yn ei roi, ac ni fydd hyn yn dylanwadu o gwbl ar yr asesiad. Does dim rhaid ichi fod wedi siarad ag aelod o staff Photoworks neu Jerwood Arts cyn gwneud cais.

Ateb eich gofynion hygyrchedd

Mae recordiad sain o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).
Mae fersiwn hawdd ei ddeall o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).
Mae fersiwn print bras o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).
Mae fersiwn Saesneg o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).

Gweithiwr Cymorth Hygyrchedd

Gallwn gyfrannu hyd at £200 tuag at ffi Gweithiwr Cymorth Hygyrchedd i ymgeiswyr sydd angen hyn. Anfonwch e-bost at Julia Bunnemann, y Curadur, drwy julia@photoworks.org.uk neu ffoniwch ni ar 07944 903 993 o leiaf un wythnos waith cyn y dyddiad cau er mwyn trafod sut y gallwn helpu.

Ceisiadau sain a fideo

Os byddai'n well gennych chi gyflwyno eich cais ar ffurf recordiad sain neu fideo, mae'r porth ymgeisio ar-lein yn rhoi'r cyfle ichi wneud hyn. Gallwch uwchlwytho'r ffeil sain neu fideo, na ddylai fod yn fwy na chwe munud o hyd, gan sôn am uchafbwyntiau eich gyrfa a rhoi gwybodaeth am eich gwaith diweddar a'ch cynnig. Byddwn yn gofyn ichi gwblhau eich manylion cyswllt, crynodeb 50 gair o'ch cynnig, a ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal yn ysgrifenedig er mwyn ein helpu i brosesu'ch cais. Ni fyddwn yn asesu ansawdd y cynhyrchu ar eich recordiadau sain neu fideo.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod Gwobrau Jerwood/Photoworks yn hygyrch i'r artistiaid a gaiff eu dewis. Byddwn yn rhoi dogfen hygyrchedd i'r rheini sy'n cael y gwobrau, ac yn sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu yn cyd-fynd ag anghenion yr unigolion.

Y Broses Ddethol

Bydd yr aseswyr yn ystyried ceisiadau ar sail y meini prawf canlynol:

- Ansawdd ymarfer presennol yr artist unigol neu'r gwaith ar y cyd, a'r hanes o lwyddo, gan gynnwys enghreifftiau o waith, uchafbwyntiau gyrfa, a gwaith diweddar
- Gweledigaeth a syniadau'r cynnig ar gyfer y gwaith neu'r gweithiau newydd
- Yr effaith y gallai Gwobrau Jerwood/Photoworks ei chael ar ddatblygu ymarfer yr artist unigol neu'r gwaith ar y cyd ar y foment hon

Bydd yr holl geisiadau'n cael eu hasesu gan ddau ddarllenwydd o banel mewnol ac arno ddau gynghorwr artistiaid cyflogedig annibynnol, aelodau o staff Jerwood Art, ac aelodau o staff Photoworks. Bydd rhestr hir o tua 75 o geisiadau'n cael ei chreu a'i hasesu gan y panel dethol, sef Christine Eyene (Hanesydd, beirniad a churadur celf), Joy Gregory (arlunydd), Sunil Gupta (Ffotograffydd), Julia Bunnemann (Curadur, Photoworks) a Harriet Cooper (Pennaeth Celfyddydau Gweledol, Jerwood Arts). O'r rhain, bydd rhestr fer ac arni hyd at 8 cais yn cael ei chreu, a'r artistiaid dan sylw yn cael eu gwahodd i gyfweiliad gyda'r panel dethol, cyn dewisir 2 gais i roi'r gwobrau iddyn nhw.

Rydyn ni'n rhoi sylw o ddifrif i sut y gall rhagfarn ddylanwadu ar y broses ddethol, a byddwn yn rhoi canllawiau i bob aseswr am hyn. Wrth ddarllen y ceisiadau, byddan nhw'n dechrau â'r datganiadau sy'n trafod yr hanes o lwyddo, yr ymarfer, a'r cynnig, cyn edrych ar enghreifftiau o waith a gwefannau. Mae hyn yn golygu mai enw unigolyn yn aml fydd un o'r pethau olaf y bydd aseswr yn ei ddarllen.

Drwy gydol y broses ddethol, byddwn yn blaenoriaethu barn yr aseswyr am ansawdd ymarfer, gweledigaeth a syniadau'r ymgeisydd, a'r effaith bosibl y gallai Gwobr Jerwood/Photoworks ei chael ar ei ymarfer. Byddwn hefyd yn cyflwyno gwybodaeth fel lleoliad a gwybodaeth fonitro wrth greu'r rhestrau hir/byr, er mwyn canfod unrhyw amrywiadau mewn canrannau wrth edrych ar yr holl ymgeiswyr. Pan fydd dau gais cryf neu ragor gerbron, gallwn argymhell y ceisiadau a fydd yn creu rhestrau hir/byr mwy cytbwys, cynrychioladol a chynhwysol i'w hystyried yn y cam nesaf.

Bydd yr holl ymgeiswyr nad ydyn nhw wedi cyrraedd y rhestr hir yn cael gwybod am ganlyniad eu cais ar 18 Mehefin 2021

Bydd yr holl ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr hir yn cael gwybod am ganlyniad eu cais erbyn 16 Gorffennaf 2021

Bydd yr holl ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael gwybod am ganlyniad eu cais erbyn 27 Gorffennaf 2021

Bydd modd i ymgeiswyr aflwyddiannus wneud cais am adborth ysgrifenedig penodol ar eu cais. Timau bach sydd gan Jerwood Arts a Photoworks ill dau, ac oherwydd eu maint ni fydd y broses adborth yn dechrau tan y bydd y broses ddethol wedi dod i ben ddiwedd mis Gorffennaf. Byddwn yn ceisio anfon adborth unigol cyn diwedd mis Awst 2021.

Telerau ac Amodau

1. Bydd y data personol a roddwch fan hyn yn cael eu defnyddio i brosesu eich cais ar gyfer Gwobrau Jerwood/Photoworks, a hynny gan Jerwood Charity (yn masnachu fel Jerwood Arts), Photoworks, a'n haseswyr allanol cyflogedig, a fydd yn llofnodi cytundeb ynghylch rhannu data.

Dim ond mewn perthynas â'r cais hwn y byddwn yn cysylltu â chi. Bydd Jerwood Charity a Photoworks yn cadw eich data personol am hyd at 10 mlynedd, a dim ond i brosesu eich cais ac i werthuso'r cyfle hwn y bydd y data'n cael eu defnyddio. Ni fydd y data'n cael eu trosglwyddo i neb arall.

Os hoffech chi i'ch data gael eu dileu o gronfa ddata Jerwood Arts gallwch anfon e-bost at Jon Opie: jon@jerwoodarts.org a Dina Mouhandes: Dina@photoworks.org.uk. Mae gennych hawl i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os hoffech chi gwyno am sut rydym wedi trin eich data.

2. Mae'r holl wybodaeth sy'n egluro sut i gyflwyno cais ar gyfer yr alwad hon am gynigion yn rhan o'r telerau a'r amodau hyn. Un o amodau'r cais yw bod yr holl reolau'n cael eu derbyn fel y rhai terfynol, ac mae'r artist(iaid) yn cytuno i gydymffurfio â'r rheolau hyn. Mae penderfyniad y detholwyr yn derfynol, ac ni wneir unrhyw ohebu ynghylch y penderfyniad terfynol. Bydd cyflwyno cais yn dynodi derbyn y telerau a'r amodau hyn.

3. Rhaid i'r holl geisiadau gyrraedd erbyn yr amser a'r dyddiad cau a hysbysebwyd.

4. Bydd yr artistiaid perthnasol yn cadw'r holl hawlfreintiau ar gyfer y delweddau a gyflwynir i'r alwad hon am gynigion.

5. Rhaid i geisiadau beidio â thorri hawlfraint neb arall a bydd artistiaid yn dynodi bod Jerwood Arts a Photoworks yn ddieuog mewn unrhyw hawliadau ynghylch eu cais os honnir bod y cais hwnnw'n torri hawliau personol neu hawliau eiddo unrhyw berson arall.

6. Ni fydd ceisiadau hwyr, ceisiadau aneglur, ceisiadau wedi'u difwyno na cheisiadau llwgr yn cael eu derbyn. Ni ellir derbyn cyfrifoldeb am geisiadau a gaiff eu colli, ac ni fydd prawf o drosglwyddo cais yn brawf o dderbyn cais.

7. Nid yw gweithwyr na chontractwyr Jerwood Arts a Photoworks, nac unrhyw berson sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chynnal yr alwad am gynigion, nac aelodau uniongyrchol o'u teuluoedd, yn gymwys i wneud cais am y wobwr.

8. Bydd gan Jerwood Arts a Photoworks yr hawl, gyda'u disgrisiwn hwy'n unig ar unrhyw adeg, i newid neu addasu'r telerau a'r amodau hyn, a bydd unrhyw newid o'r fath yn berthnasol yn syth ar ôl ei bostio ar y wefan hon.

Partneriaid

Mae Gwobrau Jerwood/Photoworks yn gynllun ar y cyd rhwng Jerwood Arts a Photoworks, gyda chefnogaeth Spectrum Photographic.

Jerwood Arts

Jerwood Arts yw'r prif gyllidwr annibynnol sy'n gweithio'n benodol i gefnogi artistiaid/gweithwyr creadigol, curaduron a chynhyrchwyr rhagorol yn y Deyrnas Unedig i ddatblygu a ffynnu. Rydyn ni'n cydweithio â sefydliadau ar draws yr holl ffurfiau celfyddydol i ddychmygu sector mwy cynaliadwy. Mae ein rhaglenni yn rhoi cyfleoedd sy'n gallu gweddnewid pethau i unigolion ar ddechrau'u gyrfaoedd, a hynny drwy wobrau, cymrodoriaethau a chomisiynau, a byddwn yn cyflwyno ein harddangosfeydd yn ein horiel yn Llundain ac ar daith yn genedlaethol. Lilli Geissendorfer, y Cyfarwyddwr, sy'n arwain Jerwood Arts.

Photoworks

Mae Photoworks yn hyrwyddo ffotograffiaeth i bawb. Rydyn ni'n blatfform rhyngwladol, yn fyd-eang yn ein cyrhaeddiad, ac rydyn ni wedi rhoi cyfleoedd i artistiaid a chynulleidfaoedd ers 1995. Nid oes gennyn ni leoliad o frics a mortar, ond mae ein sianeli ar-lein wastad ar agor. Mae ein rhaglen yn rhoi profiadau newydd i gynulleidfaoedd ac yn rhoi ffyrdd newydd i bobl o ymwneud â ffotograffiaeth.

Mae Photoworks yn elusen gofrestredig a dyma'r unig sefydliad sydd â chylch gwaith cenedlaethol ar gyfer ffotograffiaeth yn Lloegr. Mae ein gwaith yn cael ei gefnogi â chyllid cyhoeddus drwy Bortffolio Cenedlaethol Arts Council England. Shoair Mavlian, y Cyfarwyddwr, sy'n arwain Photoworks.

Spectrum Photographic

Labordy delweddu proffesiynol yw Spectrum, sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac mae'n arbenigo mewn argraffu celf gain a ffotograffau o ansawdd da, ynghyd â mowntio archifol. Maen nhw'n falch o'r enw da sydd ganddyn nhw ac yn enwog am eu hansawdd uchel, eu hangerdd, ac yn fwy na dim, eu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.



Cwestiynau Cyffredin

Mae recordiad sain o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).
Mae fersiwn hawdd ei ddeall o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).
Mae fersiwn print bras o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).
Mae fersiwn Saesneg o'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael [yma](#).

Pwy sy'n gyfrifol am Wobrau Jerwood/Photoworks?

Mae Gwobrau Jerwood/Photoworks yn gynllun ar y cyd rhwng [Jerwood Arts](#), dan arweiniad y Cyfarwyddwr Lilli Geissendorfer, a [Photoworks](#), dan arweiniad y Cyfarwyddwr Shoair Mavlian. Mae [Spectrum Photographic](#) yn cefnogi'r cynllun.

A oes unrhyw gostau wrth wneud cais?

Nid oes yn rhaid talu dim i wneud cais am Wobrau Jerwood/Photoworks. Rydyn ni'n cydnabod bod gwneud cais yn golygu llawr o lafur di-dâl gan ymgeiswyr, a byddwn yn ceisio rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl ar y tudalennau hyn er mwyn i chi wneud penderfyniad doeth ynghylch gwneud cais neu beidio. Mae'r holl wybodaeth am sut i wneud y cais wedi'i chynnwys hefyd. Er mwyn ceisio lleihau'r llafur di-dâl hwn, ni fydd angen rhoi mwy na 900 gair ar y ffurflen gais.

HYGYRCHEDD A CHYMORTH I WNEUD CAIS

Oes modd imi wneud cais sain/fideo?

Oes. Os byddai'n well gennych chi gyflwyno eich cais ar ffurf recordiad sain neu fideo, mae'r ffurflen gais ar-lein yn rhoi'r cyfle ichi wneud hyn.

Fe allwch chi uwchlwytho un ffeil sain neu fideo yn cynnwys gwybodaeth am eich cynnig, uchafbwyntiau eich gyrfa, a'r hyn rydych chi wedi bod yn gweithio arno'n ddiweddar. Cofiwch sicrhau nad yw'ch recordiad yn fwy na chwe munud o hyd, sy'n cyfateb i'r cyfyngiad ar nifer y geiriau mewn ceisiadau ysgrifenedig. Byddwn yn gofyn ichi gwblhau eich manylion cyswllt, crynodeb 50 gair, a ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal yn ysgrifenedig er mwyn ein helpu i brosesu'ch cais. Ni fyddwn yn asesu ansawdd y cynhyrchu ar eich recordiadau sain neu fideo.

Beth fydd yn digwydd os bydda' i'n cael problem dechnegol wrth ddefnyddio'r wefan?

Rydyn ni wedi profi'r canllawiau ar ein gwefan a'r porth ymgeisio yn drylwyr. Fodd bynnag, rydyn ni'n gwybod bod pobl yn gallu wynebu anawsterau technegol. Os cewch chi broblem wrth ddefnyddio'r wefan, rhowch wybod i Julia Bunnemann, y Curadur, drwy anfon e-bost at julia@photoworks.org.uk.

Gall hyn fod yn arbennig o rhwystredig os bydd yn digwydd ar y funud olaf ar y dyddiad cau, felly rydyn ni'n eich cynghori'n gryf i geisio cyflwyno'ch cais mewn da bryd ymlaen llaw.

A oes unrhyw gymorth hygyrchedd ar gael i artistiaid sy'n dymuno gwneud cais, ac sydd angen rhagor o gymorth i wneud hynny?

Oes. Mae cyllid o hyd at £200 ar gael ar gyfer pob cais i dalu am Weithiwr Cymorth Hygyrchedd i ymgeiswyr sydd angen rhywun i'w helpu i wneud cais am y cyfle hwn. Anfonwch e-bost at Julia Bunnemann, y Curadur, drwy julia@photoworks.org.uk neu ffoniwch ni ar 07944 903 993 o leiaf un wythnos waith cyn y dyddiad cau er mwyn trafod sut y gallwn helpu.

CYMHWYSEDD

Beth ydych chi'n ei olygu wrth sôn am artistiaid sy'n gweithio ym maes ffotograffiaeth?

Dylech weithio drwy gyfrwng ffotograffiaeth yn bennaf, a dylai hyn fod yn ganolog i'ch ymarfer ac wrth ddod â'ch cysyniad a'ch syniadau'n fyw. Gallai gweithio ym maes ffotograffiaeth olygu'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny: tynnu delweddau â camera, defnyddio delweddau archif, ffotograffiaeth heb gamera, creu delweddau digidol.

Oes modd gwneud cais am y cyllid hwn os ydych chi'n wedi gwneud cais i Jerwood Arts neu Photoworks yn ddiweddar, neu wedi cael cyllid gennych chi yn y gorffennol?

Oes.

Oes modd gwneud cais fel rhan o ymarfer ar y cyd? Sut ydych chi'n diffinio hyn?

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl sy'n ymarfer ar y cyd ym maes ffotograffiaeth, ac os oes rhwng blwyddyn a deng mlynedd ers iddyn nhw ddechrau cydweithio ar eu hymarfer artistig proffesiynol.

Rydyn ni'n diffinio ymarfer ar y cyd fel ymarfer lle bydd mwy nag un artist yn cydweithio i gyd-greu gwaith. Nid ydym yn cefnogi ymarfer lle bydd y cydweithio'n canolbwyntio'n bennaf ar gyflwyno, curadu neu ledaenu gwaith, yn hytrach na'i gyd-greu.

Os nad ydych chi'n sicr a ydych chi'n gymwys, cysylltwch â Julia Bunnemann, y Curadur, drwy anfon e-bost at julia@photoworks.org.uk a byddwn yn fwy na pharod i drafod eich sefyllfa benodol â chi.

A alla' i gyflwyno mwy nag un cais?

Dim ond un cais y cewch chi ei gyflwyno fel unigolyn. Gallwch chi hefyd ymddangos mewn cais fel rhan o ymarfer ar y cyd os yw hyn yn wahanol i'ch ymarfer fel unigolyn.

A fyddwch chi'n cefnogi ceisiadau sy'n ymwneud â gwaith neu weithiau rydych chi'n eisoes wedi dechrau gweithio arnyd nhw?

Na fyddwn. Ni fyddwn yn derbyn cynigion lle bydd y gwaith ymchwil a datblygu eisoes wedi dechrau, neu gynigion sydd eisoes wedi cael cefnogaeth ariannol. Os nad ydych chi'n sicr beth yw ystyr hyn, trafodwch â ni cyn gwneud cais drwy anfon e-bost at Julia Bunnemann, y Curadur, drwy julia@photoworks.org.uk.

Beth yw ystyr 'dechrau gyrfa' a 'rhwyng blwyddyn a deng mlynedd ers i'r artist ddechrau ar ei ymarfer artistig proffesiynol' ar yr adeg pan wneir y cais?

Mae'r wobwr yn agored i artist sy'n gweithio ym maes ffotograffiaeth ac sy'n ei ddiffinio'i hun fel artist ar 'dechrau gyrfa'. Ar yr adeg pan wneir y cais, dylai fod rhwyng blwyddyn a deng mlynedd ers i'r artist ddechrau ar ei ymarfer artistig proffesiynol ym maes ffotograffiaeth. Mae hyn yn golygu ei fod yn ystyried bod ei ymarfer artistig proffesiynol wedi dechrau ar ôl mis Mawrth 2011 a ddim hwyrach na mis Mawrth 2020, oni bai eich bod wedi cael egwyl gyrfa neu bod rhesymau iechyd neu ofal wedi effeithio ar lwybr eich gyrfa yn sylweddol.

Rydym yn canolbwyntio ar 'ddechrau gyrfa' yn y modd hwn er mwyn parchu cenhadaeth Jerwood Arts i gefnogi pobl sydd yng nghanam cyntaf y broses o ddatblygu eu hymarfer artistig. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod yr hyn mae'r wobwr yn gallu'i gynnig – sef cefnogaeth ariannol a churadurol, cymorth â logisteg, mynediad at rwydweithiau a gwybodaeth, a phroffil amlwg ar gylchdaith y Deyrnas Unedig ac yn y byd cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau – yn cael effaith weddnewidiol ar yr unigolion a gaiff eu dewis. Rydyn ni am i'r wobwr arwain at ddarganfod, meithrin a lansio artistiaid newydd rhyngwladol ar y sîn genedlaethol, ac mae'r gefnogaeth sydd ar gael wedi'i theilwra i wneud hynny.

Rydym ni'n chwilio am ymgeiswyr sydd wedi cwblhau o leiaf blwyddyn yn gweithio ym maes ffotograffiaeth fel artist sy'n ymarfer yn broffesiynol, a hynny ers mis Mawrth 2020 o leiaf. Mae hyn gan nad yw'r cyfle wedi'i greu ar gyfer graddedigion neu'r rheini sy'n newydd i ffotograffiaeth. Oherwydd nifer uchel y ceisiadau, mae'n bwysig i'r panel dethol allu gweld eich record ddiweddar i ddeall eich ymarfer a'i botensial yn drylwyr.

Mae ein hagwedd at 'ddeng mlynedd' yn hyblyg. Yn achos rhai artistiaid, bydd hyn yn golygu bod llai na deng mlynedd ers graddio o gwrs addysg ffurfiol, ond bydd artistiaid eraill wedi dilyn llwybr gwahanol. Efallai eich bod wedi newid trywydd eich gyrfa, a bod eich man cychwyn yn wahanol. Os ydych chi wedi cael egwyl gyrfa, er enghraifft, o ganlyniad i salwch neu gyfrifoldebau gofalu, efallai y bydd eich ymarfer wedi dechrau cyn mis Mawrth 2011. Neu efallai y byddwch wedi dechrau ar eich ymarfer artistig ym maes ffotograffiaeth ar ôl cyfnod yn gweithio mewn diwydiant arall neu â ffurf gelfyddydol arall.

Rydym ni'n rhoi cyfle i chi esbonio eich amgylchiadau eich hun yn y ffurflen gais, a byddwn yn hapus i drafod eich sefyllfa â chi i'ch helpu i benderfynu a ydych chi'n gymwys. I wneud hynny, anfonwch e-bost at Julia Bunnemann, y Curadur, drwy julia@photoworks.org.uk.

Pam nad ydych chi'n cefnogi artistiaid sydd mewn addysg ffurfiol ran amser neu amser llawn (gan gynnwys rhai sy'n ysgrifennu traethawd)?

Nid ydyn ni'n cefnogi artistiaid sy'n dilyn rhaglenni addysg ffurfiol ar hyn o bryd, gan fod y wobwr yn gofyn am ymrwymiad amser sylweddol dros 12 mis. Nod y wobwr yw cynnig cefnogaeth bwrpasol i helpu datblygiad ar ffurf mentora, arweiniad a chyfleoedd i arddangos. Nid yw'r gefnogaeth hon fel arfer ar gael i artistiaid sydd yng nghanau cynnar eu hymarfer proffesiynol, y tu allan i raglenni addysg.

Un o brif feini prawf cymhwysedd Jerwood Arts yw bod yr holl artistiaid, curaduron a chynhyrchwyr sy'n cael cyllid y tu allan i addysg ffurfiol.

Y BROSES YMGEISIO

Pa wybodaeth ddylwn i ei chynnwys yn fy nghynnig?

Mae'r ffurflen gais yn cynnwys arweiniad ynghylch beth i'w gynnwys o dan bob cwestiwn er mwyn eich helpu i roi'r wybodaeth mae'r panel dethol am ei gweld.

Yn gyffredinol, rydyn ni'n awgrymu eich bod yn cynnwys cynifer o fanylion â phosibl i gyfleu'r syniadau sy'n sail i'r gwaith neu'r gweithiau, ynghyd â chyfleu sut y gellir cyflawni'r gwaith neu'r gweithiau yn ymarferol. Bydd hyn yn gwneud eich cais yn fwy unigryw ac yn eich helpu i ddod â'ch gweledigaeth yn fyw i'r panel dethol.

Bydd y cyfnod datblygu a chynhyrchu yn para 12 mis, felly po fanylaf eich syniadau, yr hawsaf fydd inni ddychmygu beth rydych chi am ei greu, a sut y gallwn eich helpu i gyflawni hyn. Os byddwch

chi'n cael eich dewis, byddwn yn eich annog i feithrin ac esblygu'ch syniadau yn ystod y cyfnod datblygu, a hynny drwy'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig gan y wobwr.

Rydyn ni'n argymhell eich bod yn gofyn i ffrind ddarllen dros eich cais a rhoi adborth ichi am ba mor glir yw hwnnw. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r aseswyr ddychmygu beth hoffech chi ei wneud, a gweld sut y gallai'r cyllid eich helpu i gyflawni hyn.

Pa ddeg delwedd y dylwn i eu cynnwys?

Rydyn ni'n awgrymu eich bod yn cyflwyno deg delwedd sy'n cynrychioli eich ymarfer a/neu eich cynnig, er mwyn i'r panel dethol allu deall yn rhwydd eich ymarfer presennol ym maes ffotograffiaeth. Os ydych chi'n gweithio mewn cyfresi, byddai'n ddefnyddiol i'r panel weld sawl delwedd o un gyfres er mwyn gallu deall corff y gwaith. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys dogfennaeth broffesiynol o arddangosfeydd er mwyn dangos sut mae'ch gwaith wedi'i gyflwyno'n gyhoeddus. Ar y ffurflen gais, defnyddiwch y blwch testun i ddisgrifio'r ddelwedd, er mwyn helpu'r panel dethol i ddeall sut mae'n cynrychioli eich ymarfer.

Rydyn ni'n gwneud cais fel ymarfer ar y cyd, beth ddylen ni'i ystyried?

Os bydd mwy nag un unigolyn yn rhan o gais, meddyliwch am yr amser a'r gweithgareddau y bydd ffi'r artist yn talu amdany'n nhw. Ein nod yw cefnogi ymgeiswyr i gyflwyno cynigion uchelgeisiol a beiddgar, ond rydyn ni am sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r gwaith yn cael eu talu'n deg ac yn cael eu cefnogi drwy gydol cyfnod Gwobrau Jerwood/Photoworks.

Oherwydd adnoddau'r gwobrau, does dim modd cynnig ffi artist o £10,000 yr un i artistiaid unigol sy'n rhan o ymarfer ar y cyd. Fodd bynnag, os cewch eich dewis i gael gwobr, byddwn yn ystyried cynyddu maint ffi'r artistiaid er mwyn cefnogi ymarfer ar y cyd, a byddwn yn sicrhau bod costau teithio uwch ar gael yng nghyllideb gyffredinol y prosiect.

Rwy'n siaradwr Cymraeg, oes modd cyflwyno fy nghais yn Gymraeg?

Nag oes. Rydyn ni wedi darparu'r canllawiau ar gyfer gwneud cais a'r Cwestiynau Cyffredin yn Gymraeg er mwyn annog ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg i wneud cais, gan ein bod wedi ymrwymo i ehangu ein cyrhaeddiad drwy'r pedair cenedl. Yn anffodus, does gennyn ni ddim adnoddau ar hyn o bryd i allu cefnogi sefyllfa lle mae modd cyflwyno ac asesu'r cynigion yn Gymraeg.

Sut ddylai fy nghynnig roi sylw i newidiadau yng nghyfyngiadau COVID-19?

Bydd cais cryf yn cydnabod y cyfyngiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chyd-destun COVID-19 wrth i hwnnw newid, gan greu dull hyblyg o ddatblygu ac arbofi. Rydyn ni'n chwilio am syniadau beiddgar er gwaetha'r ansicrwydd, a byddwn yn hyblyg wrth eich cefnogi drwy gydol y cyfnod datblygu 12 mis.

Fyddwch chi'n ystyried cynigion sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n cael eu cynnal y tu allan i'r Deyrnas Unedig?

Byddwn. Byddwn yn ystyried cynigion lle bydd y gwaith ymchwil a'r gweithgareddau yn cael eu cynnal y tu allan i'r DU. Rydyn ni'n argymhell eich bod yn egluro yn eich cais sut y gallwch gyflawni'r gwaith os bydd rhagor o gyfyngiadau teithio'n cael eu cyflwyno oherwydd COVID-19 yn ystod y cyfnod datblygu.

Os bydda' i'n cael cyfweiliad, beth fydd fformat y cyfweiliad hwnnw?

Bydd cyfweiliadau fel arfer yn cael eu cynnal yn swyddfa Jerwood Arts yn Jerwood Space yn Llundain, ond mae'n bosibl mai galwadau fideo fydd y rhain oherwydd COVID-19. Bydd y cyfweiliadau'n para 30 munud, a byddwch chi'n cael eich cyfweld gan y panel dethol llawn.

Byddwn yn gofyn ichi ymateb i nifer o gwestiynau safonol a fydd yr un fath i bob ymgeisydd. Byddwn hefyd yn gofyn ambell gwestiwn am eich cynnig penodol chi, er mwyn cael deall eich syniadau yn well a pha ma mor ymarferol ydyn nhw gyda'r amser a'r gyllideb sydd ar gael. Bydd y cyfweiliadau hefyd yn gyfle i chi ofyn cwestiynau i ni.

Pan gewch y gwahoddiad i'r cyfweiliad, byddwn yn gofyn ichi sôn wrthyn ni am unrhyw anghenion hygyrchedd sydd gennych chi er mwyn gallu dod i'r cyfweiliad.

Fyddda' i'n cael adborth ar fy nghais?

Byddwch, os byddwch chi'n dymuno hynny. Bydd modd i ymgeiswyr wneud cais am adborth ysgrifenedig ar eu cais. Tîmau bach sydd gan Jerwood Arts a Photoworks ill dau, ac oherwydd eu maint ni fydd y broses adborth yn dechrau tan y bydd y broses ddethol wedi dod i ben ddiwedd mis Gorffennaf. Byddwn yn ceisio anfon adborth unigol cyn diwedd mis Awst 2021.

Byddwn yn rhoi adborth manylach ac yn parhau i gynnal sgwrs feirniadol gyda'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer ac yn cael gwahoddiad i gyfweiliad, ond sydd ddim yn cael eu dewis. Byddwn yn gwneud hyn fesul achos, a gall y broses gynnwys mentora anffurfiol, adborth ar gynigion/gwaith, a gwybodaeth am fynychu arddangosfeydd yn y dyfodol.

OS BYDDWCH CHI'N LLWYDDIANNUS

Os oes gennych chi anabledd a/neu ofynion penodol o ran hygyrchedd neu drefniadau gofal, pa fath o gefnogaeth y gellir ei rhoi os bydd fy nghais yn llwyddiannus?

Rydyn ni'n cydnabod y gall fod angen cymorth ychwanegol drwy gydol y flwyddyn ar artistiaid sydd ag anableddau a/neu anghenion hygyrchedd, ac mae gennym gyllideb ar gael i hyn ddiwydd.

Os cewch eich dewis i gael un o Wobrau Jerwood/Photoworks, byddwn yn eich gwahodd i gyflwyno dogfen hygyrchedd sy'n amlinellu eich anghenion cymorth. Bydd hyn yn ddefnyddiol ar y dechrau er mwyn rhoi gwybodaeth inni am eich anghenion, fel y gallwn greu'r strwythurau gorau i sicrhau bod y broses weithio yr un mor hygyrch i chi ag yw i bawb arall. Boed chi'n dewis cyflwyno'r ddogfen hygyrchedd neu beidio, byddwn yn cysylltu â chi'n gyfrinachol o dro i dro i weld sut ydych chi, ac i weld a yw'ch sefyllfa wedi newid neu a oes unrhyw beth y gallwn ni'n rhesymol ei wneud o ran hygyrchedd i'ch cefnogi'n well wrth ichi fod yn rhan o'r gwobrau.

Cysylltwch â Julia Bunnemann, y Curadur, drwy anfon e-bost at julia@photoworks.org.uk os hoffech chi drafod eich anghenion cyn gwneud cais.

Os byddda' i'n cael cynnig gwobr, i beth fyddda' i'n ymrwymo?

Os byddwch chi'n cael eich dewis i gael un o Wobrau Jerwood/Photoworks, byddwn angen ymrwymiad gennych chi i neilltuo'r amser y bydd ei angen i ddatblygu a chynhyrchu eich gwaith neu weithiau newydd dros 12 mis rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2022, ac i gyflwyno'ch gwaith yn Jerwood Arts a dau leoliad arall yn y Deyrnas Unedig yn 2023 (lleoliadau i'w cadarnhau).

Mae'r wobwr yn cynnwys eich ffi ar gyfer y cynhyrchiad a'r arddangosfa wreiddiol yn Jerwood Space. Ym mhob lleoliad teithiol, bydd tâl ychwanegol (£250) a ffi benthyciad (£200) ar gyfer yr amser y byddwch yn ei dreulio'n trafod y cyflwyniad ac yn mynd i'r rhagddangosiad.

Mae'r ymrwymiad amser yn un o'r rhesymau pam na fyddwn yn ystyried cais gan neb, gan gynnwys unrhyw aelod sy'n ymarfer y cyd, sy'n cael addysg ffurfiol ran amser neu amser llawn (gan gynnwys ysgrifennu traethawd) yn ystod y cyfnod cynhyrchu ac arddangos.

Ystyriwch y dyddiadau pwysig a sicrhewch eich bod yn gallu ymrwymo digon o amser i gynhyrchu'r gwaith neu'r gweithiau, i osod yr arddangosfeydd, ac i hyrwyddo'ch gwaith gyda ni. A fyddech cystal â pheidio â gwneud cais os nad ydych chi'n teimlo y byddwch chi'n gallu ymrwymo'r amser angenrheidiol.

Beth fydd y mentora yn ei olygu?

Bydd timau Photoworks a Jerwood Arts yn gweithio gyda'r ddau a gaiff wobrau drwy gydol 2021 a 2022.

Yn ogystal â hyn, bydd carfan o fentoriaid amlwg yn eu cefnogi drwy gydol y cyfnod datblygu 12 mis. Bydd y ddau sy'n cael gwobrau yn cael prif fentor ar ôl trafod hynny, a'r rheini'n cyd-fynd yn benodol â'u huchelgeisiau ar gyfer datblygu eu hymarfer. Bydd arbenigwyr ychwanegol yn cyfrannu i drafod elfennau gwahanol o'u hymarfer.

Beth yw'r telerau a'r amodau os bydda' i'n cael fy newis?

Gofynnir i'r artistiaid sy'n cael eu dewis lofnodi cytundeb â Photoworks cyn cael rhandaliad cyntaf y wobr. Bydd y cytundeb hwn, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys y canlynol:

- Yr hawl i Photoworks a Jerwood Arts gyflwyno elfennau o'r ymchwil a'r gwaith neu'r gweithiau ar eu gwefannau a'u sianeli digidol, ar sail barhaus.
- Y telerau ar gyfer cydnabod Gwobrau Jerwood/Photoworks am gefnogi'r gwaith neu'r gweithiau mewn arddangosfeydd yn y dyfodol ac wrth roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith neu i'r gweithiau.
- Y telerau ynghylch arddangos y gwaith neu'r gweithiau yn y dyfodol.
- Yr artistiaid fydd yn dal yn berchen ar y gwaith neu'r gweithiau a gaiff eu creu, a byddan nhw'n cael eu benthyg i Jerwood Arts dros y cyfnod arddangos a chyfnod y daith genedlaethol. Byddwn yn helpu i werthu'r gwaith os bydd yr artist yn cytuno i hynny. Bydd y gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r artist/gwneuthurwr neu i'w berchennog newydd ar ddiwedd y cyfnod hwn.